

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Honeyfields Dental

Dyddiad yr arolygiad: 22 Awst 2023

Dyddiad cyhoeddi: 22 Tachwedd 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-83577-182-2

© Hawlfraint y Goron 2023

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom	5
2. Crynodeb o'r arolygiad	6
3. Yr hyn a nodwyd gennym	9
• Ansawdd Profiad y Claf	9
• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol.....	12
• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	17
4. Y camau nesaf	20
Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	21
Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	22
Atodiad C - Cynllun gwella.....	23

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Honeyfields Dental ar 22 Awst 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o wyth holiadur. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod Honeyfields Dental yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion.

Nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn dda iawn neu'n dda.

Gwelsom y staff yn cyfarch cleifion mewn ffordd gwrtais a chyfeillgar, wyneb yn wyneb a thros y ffôn.

Roedd systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a phroffesiynoldeb.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd trefniadau ar waith i ddiogelu preifatrwydd y cleifion, gan gynnwys manau dynodedig i'r cleifion gael sgysiau preifat â'r staff.
- Roedd y cleifion yn cael eu trin mewn modd gofalgwr a chyfeillgar mewn meddygfeydd a oedd yn cynnal eu hurddas
- Roedd safle'r practis yn hygyrch.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod Honeyfields Dental yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol sy'n gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion.

Roedd y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac roedd yn cynnwys cyfarpar addas i ddarparu'r gwasanaethau a'r triniaethau y mae wedi'i gofrestru i'w darparu.

Roedd pob ardal yn lân ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg.

Roedd trefniadau boddhaol ar waith i sicrhau bod y cyfarpar pelydr-X yn cael ei ddefnyddio mewn modd priodol a diogel.

Roedd y tîm deintyddol yn wybodus iawn, yn broffesiynol ac yn dangos ei fod yn deall ble a sut i gael gafeal ar gyngor ac arweiniad.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau y caiff y ffolder Diogelu rhag Ymbelydredd ei adolygu a'i ddiweddarau
- Sicrhau y caiff archwiliadau sicrhau ansawdd chwarterol o'r cyfarpar pelydr-X ac archwiliadau'r Adnodd Gwella Ansawdd ar gyfer Ymbelydredd Ioneiddio eu cwblhau
- Sicrhau y caiff dewis iaith y cleifion ei chofnodi yn eu cofnodion clinigol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y practis wedi'i ddylunio a'i orffen i safon uchel.
- Roedd y deintyddfeydd yn lân, yn cynnwys digon o gyfarpar ac yn addas at y diben.
- Ystafell ddihalogi ddynodedig.
- Roedd cofnodion clinigol ardderchog yn cael eu cadw.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd gennym fod arweinyddiaeth dda iawn a llinellau atebolrwydd clir yn Honeyfields Dental.

Y rheolwr cofrestredig oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd a gwelsom ei fod yn ymrwymedig ac yn ymroddedig iawn i'r rôl ac i'r practis.

Gwelsom fod y tîm staff yn cydweithio'n dda iawn a'u bod yn ymrwymedig i roi gofal o safon uchel i'r cleifion.

Roedd cyfleoedd hyfforddiant priodol ar gael i'r staff er mwyn iddynt gyflawni eu rolau.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod Archwiliad Clinigol ac Adolygiad gan Gymheiriaid (CAPRO) o'r trefniadau ar gyfer rhagnodi gwrthfotigau ac archwiliadau rhoi'r gorau i smygu yn cael eu cwblhau fel rhan o raglen flynyddol y practis o archwiliadau.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd amrywiaeth o bolisiau ar gael yn hwylus i'r staff i'w helpu i ymgymryd â'u rolau
- Roedd y staff, gan gynnwys y staff clinigol ac anghlinigol, yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd fel rhan o dîm
- Roedd ffeiliau'r staff yn cael eu cynnal yn dda iawn
- Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant perthnasol i'w rolau ac yn bodloni'r gofynion o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Nododd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC (7/8) fod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn dda iawn a nododd un claf bod y gwasanaeth yn dda.

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

" Apwyntiadau, ond ar ôl cael fy ngweld, mae'r gwasanaeth yn wych."

"Mae'n anodd cael apwyntiadau. Caiff apwyntiadau eu canslo am resymau dealladwy ond o ganlyniad, ceir bylchau mawr rhwng apwyntiadau."

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu Iechyd

Roedd y deunydd hybu iechyd yn cael ei arddangos ac roedd rhywfaint o'r wybodaeth hon ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Felly, roedd y cleifion yn gallu cael gafael ar wybodaeth a allai eu helpu i gymryd camau drostynt eu hunain i ofalu am hylendid y geg.

Gwelsom arwyddion 'Dim Smygu' yn y practis a oedd yn cadarnhau bod y practis yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynglŷn â mangreoedd di-fwg.

Roedd rhestrau prisiau hefyd wedi'u harddangos yn glir yn yr ardal aros ac yn y dderbynfa. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Gwelsom arwyddion clir a oedd yn nodi sut i gysylltu â'r practis y tu allan i oriau.

Gofal Urddasol a Pharchus

Roedd trefniadau ar waith i ddiogelu preifatrwydd y cleifion, gan gynnwys manau penodol i'r cleifion gael sgysiau preifat â'r staff.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo bod y staff yn y practis yn eu trin ag urddas a pharch.

Dywedodd pob un o'r cleifion eu bod yn teimlo bod y tîm deintyddol yn eu helpu i ddeall yr holl opsiynau a oedd ar gael iddynt o ran y driniaeth roedd angen iddynt ei chael. Dywedodd yr holl gleifion wrthym hefyd fod pethau bob amser yn cael eu hesbonio iddynt yn ystod eu hapwyntiad mewn ffordd y gallant ei deall.

Gwelsom y staff yn rhoi gofal i'r cleifion mewn ffordd urddasol a pharchus ac roeddent yn siarad â'r cleifion mewn ffordd gyfeillgar ac yn barod i'w helpu. Roedd drws y ddeintyddfa yn cael ei gadw ar gau yn ystod triniaethau.

Gwelwyd bod y 9 egwyddor, fel y'u nodwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, yn cael eu harddangos wrth y brif fynedfa.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Mae gan y practis daflen wybodaeth i gleifion a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol o dan y rheoliadau.

Mewn ymateb i holiadur AGIC, dywedodd pob claf wrthym ei fod yn cael digon o wybodaeth er mwyn deall pa opsiynau triniaeth oedd ar gael, a bod ei hanes meddygol yn cael ei wirio cyn cael triniaeth.

Roedd pob claf yn cytuno ei fod yn cael digon o wybodaeth i ddeall risgiau a manteision yr opsiynau triniaeth a bod y costau yn cael eu nodi'n glir cyn cael triniaeth.

Gwelsom fod gwaith cynllunio ac opsiynau o ran triniaethau yn cael eu cofnodi yn y sampl o gofnodion cleifion a welsom. Roedd hyn yn golygu bod y cleifion yn cael gwybodaeth a oedd yn eu galluogi i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth.

Amserol

Gofal Amserol

Gwelsom fod y staff yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod gofal deintyddol bob amser yn cael ei roi mewn modd amserol. Disgrifiodd y staff broses ar gyfer rhoi gwybod i'r cleifion am unrhyw oedi i amser eu hapwyntiad.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion (7/8) a gwblhaodd yr holiadur ei bod yn hawdd iawn cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt, ond dywedodd yr wythfed nad oedd yn hawdd.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion (6/8) a gwblhaodd yr holiadur eu bod yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau os oedd ganddynt broblem ddeintyddol frys ond dywedodd dau wrthym nad oeddent yn gwybod sut i

wneud hynny. Roedd rhif mewn argyfwng ar gael pe bai angen triniaeth ddeintyddol frys y tu allan i oriau ar y cleifion. Roedd y manylion cyswllt yn cael eu harddangos ger y brif fynedfa, ar neges peiriant ateb ac yn y daflen wybodaeth i gleifion.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur mai Saesneg oedd eu dewis iaith.

Dywedwyd wrthym fod un aelod o'r staff sy'n gweithio yn y practis yn siarad Cymraeg. Dywedwyd wrthym hefyd, pe byddai angen, y gallai'r staff ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu i'w helpu i gyfathrebu â chleifion nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf.

Roedd gan y practis amrywiaeth o wybodaeth i gleifion, gan gynnwys taflen wybodaeth i gleifion a pholisi cwynion. Roedd yr holl wybodaeth ar gael yn Saesneg, ac roedd rhywfaint o'r wybodaeth ar gael yn Gymraeg. Dywedodd y staff wrthym y gellid trefnu i ddarparu'r wybodaeth mewn fformatau gwahanol pe gofynnwyd am hynny.

Hawliau a Chydraddoldeb

Roedd polisi cyfle cyfartal ar waith. Roedd hyn yn golygu bod y practis yn ymrwymedig i sicrhau bod yr un cyfleoedd a'r un driniaeth deg ar gael i bawb.

Roedd mynediad da i'r adeilad. Gallai'r rhai sy'n defnyddio cadeiriau olwyn gael mynediad i'r dderbynfa, yr ardal aros, y toiledau ac un ddeintyddfa wedi'i lleoli ar y llawr gwaelod.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu wrth gysylltu â'r gwasanaeth neu ei ddefnyddio. Yn ogystal, dywedodd pob un ohonynt wrthym eu bod yn teimlo bod y safle'n hygyrch.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli Risg

Roedd trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y staff a'r bobl sy'n ymweld â'r practis.

Roedd yr adeilad mewn cyflwr da iawn, yn fewnol ac yn allanol, i bob golwg. Gwelsom fod pob ardal yn lân iawn ac yn daclus ac nad oedd unrhyw beryglon amlwg.

Ni fynegodd y cleifion unrhyw bryderon am lendid y practis deintyddol. Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur yn teimlo bod y practis deintyddol yn lân iawn.

Roedd cyfarpar diffodd tân ar gael mewn gwahanol leoliadau yn y practis, a gwelsom fod y cyfarpar hwnnw wedi cael ei wasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant tân. Fodd bynnag, nodwyd gennym ei bod yn amser i un aelod o'r staff adnewyddu ei hyfforddiant. Cawsom sicrwydd gan y rheolwr cofrestredig fod cynlluniau eisoes ar waith i'r aelod o'r staff adnewyddu ei hyfforddiant.

Roedd allanfeydd argyfwng yn weladwy ac roedd poster lechyd a Diogelwch yn cael ei arddangos.

Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau ar waith, yn ogystal ag asesiadau risg, megis tân ac iechyd a diogelwch. Roedd yr holl asesiadau risg yn gyfredol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Cawsom sicrwydd bod y safle yn addas at y diben, a gwelsom ddigon o ddogfennaeth a oedd yn dangos bod yr holl risgiau, yn fewnol ac yn allanol, i'r staff, ymwelwyr a'r cleifion wedi cael eu hystyried.

Gwelsom fod gan y practis gynllun parhad busnes ar waith i sicrhau parhad y gwasanaethau a ddarperir a gofal diogel i'r cleifion.

Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi

Roedd gan y practis ardal ddynodedig ar gyfer glanhau a sterileiddio (dihalogi) offer deintyddol. Roedd y cyfleuster yn lân ac yn drefnus. Roedd yn cynnwys cyfarpar addas ac roedd yn daclus.

Roedd y trefniadau dihalogi yn dda. Dangosodd y staff y broses ddihalogi i ni a nodwyd y canlynol gennym

- Roedd y cyfarpar a ddefnyddir i lanhau a sterileiddio offer mewn cyflwr da.
- Roedd offer yn cael eu storio'n briodol ac roedd dyddiad wedi'i nodi arnynt.
- Roedd digon o gyfarpar diogelu personol i ddiogelu'r staff rhag anaf a/neu haint.
- Roedd gwiriadau cynnal a chadw dyddiol yn cael eu cynnal a'u cofnodi.
- Roedd cynwysyddion storio'r offer yn gadarn ac yn ddiogel.

Gwelsom fod y gweithdrefnau a oedd ar waith i lanhau, sterileiddio a storio offer yn unol â'r canllawiau arferion gorau diweddaraf.

Roedd archwiliad rheoli heintiau wedi cael ei gwblhau gan gynnwys adnodd archwilio'r Gymdeithas Atal Heintiau. Fodd bynnag, argymhellwn y dylai'r practis ddefnyddio adnoddau archwilio cydnabyddedig, gan gynnwys adnodd archwilio Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC), sy'n cyd-fynd â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 ar gyfer archwiliadau yn y dyfodol. Cawsom hysbysiad ar unwaith yn dilyn yr arolygiad bod y practis wedi cofrestru ag AaGIC.

Roedd rhaglen cynnal a chadw ddyddiol ar waith i archwilio'r cyfarpar sterileiddio. Roedd gan y practis ddau awtoclaf ac roedd cofnodlyfr ar gael i gofnodi gwiriadau diogelwch ar ddechrau ac ar ddiwedd y dydd. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd tystysgrif archwilio llestr pwysedd na chynllun archwilio ysgrifenedig ar gael ar gyfer un o'r awtoclafau. Ymdriniwyd â'r mater hwn ar unwaith yn ystod yr arolygiad a chyfeirir ato yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Roedd gan bob deintyddfa restr wirio ar gyfer trefniadau glanhau, a gwelsom fod y rhestr yn cael ei chwblhau'n rheolaidd.

Roedd polisi rheoli heintiau ar waith, a oedd yn cyfeirio at hylendid dwylo, trin a thrafod a gwaredu gwastraff clinigol yn ddiogel, trefniadau cadw tŷ a glanhau a hyfforddiant perthnasol.

Roedd trefniadau priodol ar waith i ymdrin ag anafiadau a achoswyd gan eitemau miniog. Gwelsom gofnodion ynglŷn â statws imiwneiddio Hepatitis B ar gyfer pob aelod o'r staff clinigol. Roedd hyn yn golygu bod camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod y cleifion a'r staff yn cael eu diogelu rhag feirysau a gludir yn y gwaed.

Roedd system ar waith i reoli gwastraff mewn ffordd briodol a diogel. Roedd dogfennaeth contract ar waith i waredu gwastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (gwastraff cartref). Gwelsom fod yr holl wastraff wedi cael ei ddioli a'i roi yn y bagiau / cynwysyddion dynodedig yn unol â'r dull gwaredu cywir.

Rheoli Meddyginiaethau

Roedd gan y practis weithdrefnau ar waith a oedd yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion. Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi cael, ac wedi adnewyddu eu hyfforddiant dadebru cardio-anadlol ar-lein yn ddiweddar. Cawsom wybod hefyd gan y rheolwr cofrestredig bod cynlluniau ar waith i'r holl staff gael hyfforddiant wyneb yn wyneb yn y practis. Roedd gan y practis un swyddog cymorth cyntaf wedi'i hyfforddi.

Roedd y cyffuriau brys yn cael eu storio'n ddiogel mewn man y gellir mynd iddo'n hawdd pe bai argyfwng meddygol (claf yn llewygu) yn y practis. Roedd system effeithiol ar waith i archwilio'r cyffuriau brys er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn barod i'w defnyddio, yn unol â'r safonau a bennwyd gan Gyngor Dadebru'r DU. Fodd bynnag, gwelsom fod rhai cyfarpar a oedd wedi dyddio wedi cael eu storio yn y pecyn argyfwng. Mae'r rheolwr cofrestredig wedi trefnu i gael gwared ar yr eitemau sydd wedi dyddio a rhoddwyd rhestr wirio fwy cadarn ar waith yn ystod yr arolygiad i sicrhau y byddai'r eitemau yn cael eu gwirio yn ôl yr angen.

Gwelsom hefyd nad oedd y pecyn argyfwng yn cynnwys masg clir maint 0 na maint 1. Ymdriniwyd â'r mater hwn ar unwaith yn ystod yr arolygiad a chyfeirir ato yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Gwelsom fod gan y practis ddau silinder ocsigen cludadwy a gwnaethom ystyried hynny yn arfer da.

Gwelsom fod padiau presgripsiynau yn cael eu storio'n ddiogel.

Roedd polisi ar waith ynglŷn ag archebu, cofnodi, rhoi a chyflenwi meddyginiaethau i gleifion. Dangosodd y staff eu bod yn gwybod pa weithdrefnau i'w dilyn pe bai argyfwng meddygol neu pe bai'n rhaid iddynt roi gwybod am ddigwyddiad a oedd yn ymwneud â meddyginiaeth.

Diogelu Plant ac Oedolion

Roedd polisiau a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo a diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu sy'n wynebu risg. Roedd y polisiau yn cynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol, ynghyd â siartiau llif manwl a oedd yn hysbysu'r staff am y camau gweithredu i'w cymryd pe bai mater diogelu yn codi.

Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant diogelu plant ac oedolion agored i niwed.

Dyweddodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn gallu codi unrhyw bryderon ynglŷn â gwaith yn uniongyrchol gyda'r rheolwr cofrestredig a/neu'r prif ddeintydd ac roeddent yn hyderus iawn y byddent yn gweithredu ar unrhyw bryderon.

Gwelsom fod polisi chwythu'r chwiban ar waith yn y practis.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y gwiriadau cyn cyflogi a oedd yn cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau newydd o'r staff. Roedd hyn yn cynnwys cadarnhau geirdaon a / neu gynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Cadarnhawyd gennym fod gan bob aelod perthnasol o'r staff wiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol

Edrychwyd ar y cyfleusterau clinigol a gwelsom eu bod yn cynnwys y cyfarpar perthnasol. Roedd y deintyddfeydd yn drefnus iawn, yn lân ac yn daclus ac roeddent wedi cael eu gorffen i safon uchel.

Roedd yr holl gyfarpar pelydr-X mewn cyflwr da ac yn gweithio'n iawn. Roedd trefniadau ar waith i helpu'r staff i ddefnyddio'r cyfarpar pelydr-X yn ddiogel. Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael yr hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio diweddaraf.

Gwelsom fod ffolder Diogelu Rhag Ymbelydredd yn y practis. Fodd bynnag, nid yw'r ffolder wedi cael ei adolygu na'i ddiweddarau ers 2017. Dylid diweddarau'r ffolder a'r polisiau hyn bob 3 blynedd.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y ffolder Diogelu rhag Ymbelydredd ei adolygu a'i ddiweddarau.

Gwelsom nad oedd y practis wedi cynnal unrhyw archwiliadau sicrhau ansawdd cyfarpar pelydr-X chwarterol nac wedi defnyddio Adnodd Gwella ansawdd AaGIC ar gyfer Ymbelydredd ïoneiddio.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y practis wedi cynnal archwiliadau sicrhau ansawdd cyfarpar pelydr-X chwarterol ac wedi cwblhau Adnodd Gwella Ansawdd AaGIC ar gyfer Ymbelydredd ïoneiddio.

Effeithiol

Gofal Effeithiol

Roedd trefniadau ar waith i dderbyn cleifion, eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin. Roedd y trefniadau hyn wedi'u dogfennu yn y datganiad o ddiben ac mewn polisiau a gweithdrefnau .

Cofnodion y Cleifion

Edrychwyd ar sampl o gofnodion deg claf. Gwelwyd tystiolaeth bod cofnodion clinigol da yn cael eu cynnal, a oedd yn dangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i roi er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant y cleifion.

Roedd pob cofnod a welsom wedi'i deilwra at yr unigolyn ac yn cynnwys dynodyddion cleifion priodol, hanes deintyddol blaenorol a'r rheswm dros yr apwyntiad. Roedd y cofnodion yn glir, yn ddarllenadwy ac o ansawdd da. Gwelsom hefyd fod ffotograffau yn cael eu defnyddio i esbonio'r opsiynau triniaeth i gleifion. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd dewis iaith y cleifion wedi'i gofnodi yn y nodiadau clinigol.

Rydym yn argymhell y dylid cofnodi dewis iaith y cleifion yn eu cofnodion clinigol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Gwelsom fod arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir ar waith.

Y rheolwr cofrestredig oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd a gwelsom fod yr unigolyn yn ymrwymedig ac yn ymroddedig iawn i'r rôl. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hyderus i godi unrhyw broblemau neu bryderon yn uniongyrchol â'r rheolwr cofrestredig a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau.

Roedd y staff yn glir iawn ac yn wybodus ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau ac roeddent yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion, wedi'u cefnogi gan amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau. Gwelsom fod y staff wedi llofnodi'r polisiau i gadarnhau eu bod wedi eu darllen a'u deall. Roedd pob polisi a gweithdrefn yn cynnwys dyddiad cyhoeddi ac adolygu, gan sicrhau eu bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a bod arferion yn gyfredol.

Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth drwy gyfarfodydd tîm ar gyfer y practis cyfan. Roedd amrywiaeth o bynciau perthnasol yn cael eu trafod yn ystod y cyfarfodydd hyn ac roedd cofnodion yn cael eu llunio.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemniad priodol ar waith i bob un ohonynt. Roedd gan y practis yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyfredol hefyd.

Y Gweithlu

Gweithlu Medrus a Galluog

Roedd gan bob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y practis gontract cyflogaeth. Gwelsom hefyd fod rhaglen sefydlu ar waith, a oedd yn cwmpasu hyfforddiant a pholisiau a gweithdrefnau perthnasol. Gwelsom fod cynlluniau ar waith i gynnal arfarniadau staff.

Roedd ffeiliau'r staff yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol i gadarnhau eu bod yn parhau i fod yn addas i gyflawni eu rolau. Roedd tystysgrifau hyfforddiant yn cael eu cadw ar ffeil fel sy'n ofynnol. Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau ac yn bodloni'r gofynion o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig ei fod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau a'i rwymedigaethau fel y'u nodwyd yn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Diwylliant

Ymgysylltu â Phobl, Adborth a Dysgu

Roedd gweithdrefn gwyno ysgrifenedig ar waith. Roedd hyn ar gael i bob claf yn yr ardal aros. Roedd manylion hefyd wedi'u cynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion ac yn y datganiad o ddiben.

Trafodwyd sut mae'r practis yn mynd ati i geisio adborth cleifion, a wneir drwy roi holiaduron ar ffurf copi caled i gleifion. Mae blwch sylwadau hefyd wedi'i leoli yn yr ystafell aros. Gall y cleifion hefyd roi adborth drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Fodd bynnag, nid yw perchnogion y practis wedi cael unrhyw adborth gan gleifion ers iddynt gymryd cyfrifoldeb dros y practis ym mis Rhagfyr 2022. Mae'r rheolwr cofrestredig wrthi'n adolygu'r broses ar hyn o bryd gyda'r bwriad o roi cod ymateb cyflym (QR) i gleifion y gellir ei rannu â nhw ar ôl eu hapwyntiadau. Gwnaethom argymhell y dylai rheolwr y practis arddangos neu gyhoeddi dadansoddiad o adborth cleifion er mwyn dangos iddynt bod eu sylwadau wedi cael eu cofnodi ac y cymerwyd camau yn unol â'r sylwadau hynny i wella'r broses o ddysgu ac i wella'r gwasanaeth.

Dysgu, Gwella ac Ymchwil

Gweithgareddau Gwella Ansawdd

Roedd yn amlwg bod y staff yn y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Cawsom enghreifftiau o archwiliadau amrywiol a oedd yn cael eu cynnal fel rhan o weithgarwch gwella ansawdd y practis. Mae'r rhain yn cynnwys archwiliadau ar ansawdd graddio pelydr-X, atal a rheoli heintiau, ac archwiliadau ar hylendid dwylo ac anabledau. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell y dylai'r practis hefyd gynnwys Archwiliadau Clinigol ac Adolygiad gan Gymheiriaid (CAPRO) mewn perthynas â rhagnodi gwrthfotigau a rhoi'r gorau i smygu yn ei raglen o archwiliadau a gynlluniwyd, a gwnaethant gytuno i wneud hynny.

Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod archwiliadau CAPRO mewn perthynas â rhagnodi gwrthfotigau a rhoi'r gorau i smygu yn cael eu cwblhau fel rhan o raglen archwiliadau flynyddol y practis.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad oedd y practis wedi rhoi unrhyw adnoddau datblygu tîm ar waith eto. Gwnaethom awgrymu efallai yr hoffai'r practis ystyried defnyddio adnodd datblygu practisau deintyddol Matrics

Aeddfedrwydd Deoniaeth Deintyddol Cymru. Mae'r Matrics Aeddfedrwydd yn cynnig adnodd datblygu tîm practis deintyddol sy'n annog y tîm i ganolbwyntio ar arferion gorau, ansawdd a diogelwch, gofynion deddfwriaethol a sut mae'n gweithio fel tîm.

Roedd y tîm deintyddol yn rhagweithiol, yn wybodus, yn broffesiynol ac yn dangos ei fod yn deall ble a sut i gael gafael ar gyngor ac arweiniad.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
<p>Nid oedd tystysgrif archwilio llestr pwysedd na Chynllun Archwilio Ysgrifenedig ar gael i ddangos bod yr awtoclaf wedi'i dystio yn llawn.</p>	<p>Mae'n bwysig sicrhau bod awtoclafau yn cael eu harolygu'n rheolaidd i atal y posibilrwydd o ollyngiadau neu ffrwydradau, ac i amddiffyn y staff a'r cleifion rhag niwed difrifol.</p>	<p>Gwnaethom uwchgyfeirio'r pryder i'r rheolwr cofrestredig a phrif ddeintydd y practis yn ystod ein hymweliad.</p>	<p>Tynnodd y prif ddeintydd yr awtoclaf allan o gwasanaeth ar unwaith.</p> <p>Cawsom hysbysiad ar unwaith ar ôl yr arolygiad i gadarnhau bod peiriannydd wedi'i drefnu ar gyfer 7 Medi 2023 ac mae'r awtoclaf wedi'i ddatgomisiynu tan iddo gael ei ystyried yn ddilys gan y peiriannydd.</p>
<p>Ni chaiff 'maint 0' na 'maint 1' eu cynnwys yng nghynnwys y cyfarpar brys.</p>	<p>Gallai hyn gynyddu risg diogelwch y cleifion yn sylweddol mewn digwyddiad argyfwng meddygol.</p>	<p>Gwnaethom uwchgyfeirio'r pryder i'r rheolwr cofrestredig a phrif ddeintydd y practis yn ystod ein hymweliad.</p>	<p>Gwnaeth y rheolwr cofrestredig drefnu i archebu'r eitemau coll ar unwaith i gyrraedd drannoeth yn ystod yr arolygiad.</p>

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Honeyfields Dental

Dyddiad yr arolygiad: 22 Awst 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oedd angen cynllun gwella ar unwaith ar gyfer yr arolygiad hwn.					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Honeyfields Dental

Dyddiad yr arolygiad: 22 Awst 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae ein canfyddiadau'n dangos nad yw'r ffolder Diogelu rhag Ymbelydredd wedi cael ei adolygu ers 2017.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y ffolder Diogelu rhag Ymbelydredd ei adolygu a'i ddiweddarau.	IR(ME)R 2017	Adolygu a diweddarau'r RPF ar-lein ac ar ffurf copi caled.	Amber Rupra	Wedi'i gwblhau
Mae ein canfyddiadau'n dangos nad yw'r practis wedi cynnal unrhyw archwiliadau sicrhau ansawdd cyfarpar pelydr-X chwarterol neu wedi cwblhau Adnodd Gwella Ansawdd AaGIC ar gyfer Ymbelydredd Ïoneiddio.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y practis wedi cynnal archwiliadau sicrhau ansawdd cyfarpar pelydr-X chwarterol ac wedi cwblhau Adnodd Gwella Ansawdd AaGIC ar gyfer Ymbelydredd Ïoneiddio.	IR(ME)R 2017	Cafodd lletem risiog ei harchebu, a chafodd prawf chwarterol ei gynnal a'i amserlennu ar gyfer pob 3 mis, ynghyd ag Archwiliadau cyfarpar a sicrhau ansawdd.	Amber Rupra	Wedi'i gwblhau

Mae ein canfyddiadau'n dangos nad yw'r practis yn cofnodi dewis iaith y cleifion	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff dewis iaith y cleifion ei chofnodi yn eu cofnodion clinigol.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 20	Mae dewis iaith bellach yn cael ei ychwanegu fel nodyn naid ar ffeil y claf.	Amber Rupra	Wedi'i gwblhau
Mae ein canfyddiadau'n dangos nad yw'r practis wedi cwblhau archwiliad CAPRO ar ragnodi gwrthfotigau neu'r archwiliadau ar roi'r gorau i smygu.	Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod archwiliadau CAPRO mewn perthynas â rhagnodi gwrthfotigau a rhoi'r gorau i smygu yn cael eu cwblhau fel rhan o raglen archwiliadau flynyddol y practis.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 16	Mae archwiliadau mewn perthynas â rhoi'r gorau i smygu a rhagnodi gwrthfotigau wedi'u cwblhau.	Amber Rupra	Wedi'i gwblhau

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Amber Rupra

Teitl swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 30/10/2023